

**Cofnodion Cyfarfod Gweithgor Gilfach Iago a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar ddydd Mercher, Ebrill 18<sup>fed</sup>, 2018 am 4.30 yh.**

**Preseennol**

Cynghorwyr	P.H. Roberts Mrs J.E. Collins	Mrs S. E. Thomas C.J. Harris	Mrs K.D. L Davies
------------	----------------------------------	---------------------------------	-------------------

<b>Ymddiheuriadau</b>	N. Evans	A. Davies	I.RH. Llewelyn
-----------------------	----------	-----------	----------------

**258.**

**Safle Glo Brig Gilfach Iago**

Hefyd yn bresennol ac yn mynychu'r cyfarfod roedd Steve Murphy a Hugh Towns o Gyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â Will Watson a Rob Thompson o Celtic Energy.

Cychwynwyd y cyfarfod gydag ymweliad safle, gan ymweld ag amrywiol leoliadau yn ffinio ar Safle Glo Brig Gilfach Iago, ac yna roedd pawb wedi ailgynnull yn y Siambr.

Dywedodd Mr Watson wrth yr Aelodau ei fod o'r farn, ar ôl iddo ymweld â'r safle, y byddai adfer yr heolydd wedi 20 mlynedd yn anodd, ac nad oedd gan Celtic Energy yr hawl gyfreithiol i'w hadfer gan nad ydynt bellach yn berchen ar ddarnau o'r tir o dan ystyriaeth. Felly, roedd yn tynnu yn ôl unrhyw gynnig blaenorol a wnaethpwyd i'r Cyngor Cymuned, ac nid oedd yn gallu cadarnhau bod y cynnig wedi'i drafod gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Celtic Energy. Roedd cynrychiolwyr Cyngor Sir Caerfyrddin wedi atgoffa'r Aelodau am yr amrywiol geisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan Celtic Energy, a'r ffaith nad oeddent wedi cydymffurfio ag amodau'r caniatâd.

Dywedodd Steve Murphy wrth yr Aelodau bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal dau ymarfer ymgynghori gyda'r tirlfeddianwyr i ofyn iddynt ystyried gorchmynion gwyro a fyddai, o bosib, yn caniatâu adferiad pe byddai'r holl berchnogion yn cytuno i wneud hynny. Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddaraf roedd rhai o'r perchnogion yn anghytuno, felly ar hyn o bryd, nid yw gwyrriad yn bosib. Byddai'n bosibl ystyried cynnal ymarfer ymgynghori pellach.

Dywedodd Mr Watson unwaith eto ei fod yn awyddus i ddod i gytunteb yn yr achos hwn, ac y byddai'n ffafrio cynnig iawndal ariannol. Serch hynny, dywedodd y byddai'n barod i ddechrau negodi telerau dim ond pe byddai Cyngor Cymuned Llandybïe yn tynnu'n ôl y gofynion bod yr heolydd, y llwybrau troed a'r llwybrau ceffyl yn cael eu hailosod. Roedd am leisio ei bryder bod y Cyngor Cymuned wedi trefnu bod cynrychiolaeth gyfreithiol yn bresennol yn y cyfarfod, ond cafodd ei atgoffa nad oedd Steve Murphy yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned, ond yn hytrach yn bresennol fel cynrychiolydd cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin. Awgrymodd Mr Watson y byddai angen yn y dyfodol bod Celtic Energy efallai trefnu ei gynrychiolaeth gyfreithiol ei hun ar gyfer y cyfarfodydd hyn, a byddai'n well ganddo ddelio ag un corff wrth gynnal unrhyw ymarfer negodi.

Cytunodd cynrychiolwyr Cyngor Sir Caerfyrddin i adolygu'r ffeil, ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned cyn y cyfarfod nesaf gyda Celtic Energy, a gynhelir ar Fai 16<sup>eg</sup>, 2018.

**259.**

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 6.50 yh.